**GWASANAETH TÂN AC ACHUB DE CYMRU**
**SWYDD-DDISGRIFIAD**

| | |
|---|---|
| **Adran** | Diogelwch Cymunedol a Phartneriaethau |
| **Swydd** | Rheolwr Diogelwch yn y Cartref |
| **Rhif y Swydd** | 505184 |
| **Gradd** | Gradd 11 |
| **Lleoliad** | Pencadlys Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru |
| **Yn gyfrifol i** | Reolwr Cyffredinol Diogelwch yn y Cartref a Throsedd Tân<br>Diogelwch Cymunedol a Phartneriaethau |
| **Yn gyfrifol am** | Ymarferwyr Diogelwch rhag Tân yn y Cartref |
| **Cyfrifoldeb 3dros Adnoddau Corfforol** | Ffôn Symudol, Gliniadur, |
| **Cyfrifoldeb dros Adnoddau Ariannol** | Does dim |

**Cyfeiria'r swydd-ddisgrifiad hwn at brif bwrpas a chyfrifoldebau'r swydd. Nid yw hyn o reidrwydd yn nodi mewn manylder yr holl dasgau sydd eu hangen i gyflawni'r cyfrifoldebau hyn. Adolygir y swydd-ddisgrifiad hwn fel bo'r gofyn i sicrhau ei fod yn cwrdd ag anghenion busnes y Gwasanaeth**

| **PRIF BWRPAS Y SWYDD** |
|---|
| Rheoli gweithgareddau'r tîm Diogelwch yn y Cartref o ddydd i ddydd a chyfrannu at gynllunio a gweithredu gweithgareddau Diogelwch yn y Cartref ar draws y gwasanaeth. |

**DYLETSWYDDAU A CHYFRIFOLDEBAU:**

- Cynnal a chyfrannu at gyfathrebiadau diogelwch tân cymunedol ehangach yr Adran a ddarperir i bob ystod o grwpiau sydd mewn perygl o dân.
- Cyfrannu'n weithredol at strategaethau lleihau risg, diogelwch cymunedol a diogelwch yn y cartref y Gwasanaeth.

- Gweithio gyda rhanddeiliaid mewnol ac allanol fel y pennir gan broffiliau risg uchel o fewn y cymunedau.

- Cynorthwyo i ddatblygu a monitro cyflwyniadau lleihau risg, mentrau, cynlluniau, a rhaglenni i ystod eang o grwpiau cymunedol yn unol â strategaethau diogelwch yn y cartref CCPT.

- Monitro ac adrodd ar ddangosyddion perfformiad lleol.

- Monitro a darparu adborth o brosiectau lleihau risg gyda rhanddeiliaid mewnol ac allanol.

- Cynorthwyo i ddarparu a monitro protocolau rhannu data gyda sefydliadau partner.

- Cynghori personél yr orsaf a swyddogaethau eraill o fewn y sefydliad ar faterion Diogelwch yn y Cartref.

- Cynrychioli'r Adran ar bwyllgorau mewnol ac allanol (Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid Tân) a gweithgorau sefydliadau partner a bennir gan y Pennaeth Diogelwch yn y Cartref a Rheolwr Trosedd Tân.

- I gynorthwyo â choladu, dadansoddi a chyflwyno gwybodaeth rheoli.

- Cadw cofnodion a chynnal gwiriadau stoc o offer Diogelwch yn y Cartref.

- Cynnal a hwyluso cyllidebau ar gyfer Diogelwch yn y Cartref i gynnwys archwilio cynigion ariannu ar gyfer mentrau a chyfleoedd presennol.

- Gweithio gyda chaffael ar gyfer offer lleihau risg Diogelwch Cartref yn y dyfodol.

- Rheoli'r Tîm Diogelwch Cartref, eu llwyth gwaith a'u hanghenion lles.

- I gynnal cymhwyseddau craidd personol a chynorthwyo yn natblygiad eraill lle bo’n briodol.

- Unrhyw ddyletswyddau eraill sy’n gymesurol â’r swydd a’r radd.

- Ufuddhau i a hyrwyddo arferion a gweithgareddau sydd o fewn Polisïau Iechyd a Diogelwch a Chydraddoldeb ac Amrywiaeth Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru.

**GOFYNION GWASANAETH SAFONOL**

- I fynychu cyrsiau hyfforddi mewnol ac allanol yn ôl yr angen

- Unrhyw ddyletswyddau eraill sy'n gymesurol â'r raddfa a'r swydd

- I gydweithredu'n llawn ag unrhyw gynllun neu gynllun peilot o'r fath a gyflwynir o fewn yr Adran neu ar draws y Gwasanaeth.

- I weithredu egwyddorion Polisïau Cyfle Cyfartal ac Amrywiaeth a Chynllun Iaith Gymraeg y Gwasanaeth wrth gyflawni'r dyletswyddau uchod.

- I ufuddhau i Ddeddfwriaeth Iechyd a Diogelwch/Polisïau a Gweithdrefnau Gwasanaeth Perthnasol a chymryd gofal rhesymol am eich iechyd a diogelwch eich hun yn ogystal â rhai personau eraill a all gael eu heffeithio'n andwyol gan eich gweithredoedd/anweithredoedd.

**GWERTHOEDD SEFYDLIADOL**

Wrth berfformio'r rôl uchod, mae'n ofynnol i bob gweithiwr y Gwasanaeth ddilyn a hyrwyddo Gwerthoedd Craidd y Gwasanaeth ar bob adeg, megis bod:

- Yn broffesiynol
- Yn ofalgar
- Yn barchus
- Yn ymroddgar
- Yn ddibynadwy
- Yn rymus
- Yn ddisgybledig
- Yn hydwyth

**Bydd angen Archwiliad gan Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG) mewn achos cais llwyddiannus. Ni fydd meddu ar gofnod troseddol o reidrwydd yn rhwystr i chi dderbyn swydd.**